



Partneriaeth
Sgiliau
Prifddinas
Ranbarth
Caerdydd

Cardiff
Capital
Region
Skills
Partnership

e-Fwletin
Gwanwyn 2021

Croeso gan Leigh Hughes, Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC



Fel cadeirydd y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau, fe'ch croesawaf i gylchlythyr tymhorol Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-ranbarth Caerdydd (PSPRC) ar ei newydd wedd. Rwy'n gobeithio'n fawr eich bod yn cadw'n ddiogel ac iach yn y cyfnod anodd hwn.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod digynsail. Mae gan bob un ohonom ein profiadau personol ein hunain o'r pandemig byd-eang sydd hefyd wedi effeithio i raddau helaeth ar y dirwedd sgiliau. Wrth i mi ysgrifennu, mae'n ymddangos bod optimistiaeth gynyddol yn sgil y brechiadau, a gobeithiaf yn fawr fod y rhwystrau mwyaf y tu ôl i ni erbyn hyn. Fodd bynnag, rwy'n gwbl ymwybodol y bydd rhagor o heriau i'w goresgyn yn y dyfodol.

Fel y gwyddoch, sefydlwyd PSPRC i ddod â phobl ynghyd i hyrwyddo penderfyniadau strategol a chydweithredol. Mae cynrychiolwyr o'r byd busnes, addysg a hyfforddiant yn dod ynghyd i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sectorau er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau i baratoi ac ymateb i'r datblygiad gofynnol o sgiliau a thalent.

In late 2019 we launched our **Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau: 2019-22**. Cafodd ei ddatblygu drwy ystod eang o ddulliau cydweithredol ac mae ar gael drwy'r ddolen ganlynol www.ccrsp.co.uk/publications.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi argymhellion cadarn i'r Llywodraeth, yn cydnabod yr heriau ac yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau sy'n rhwystro twf ar draws y rhanbarth. Er gwaethaf y pandemig, rydyn ni'n dal i gredu bod gwerth i'r cynllun hwn ac rydyn ni'n parhau i ymdrechu i gyflawni'r nodau ac amcanion strategol a bennwyd.

Diben yr ohebiaeth hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau sy'n ymwneud â sgiliau allweddol ym mhob rhan o PSPRC. Gobeithiwn y bydd y cynnwys o ddefnydd i chi, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y misoedd sydd i ddod wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau parhaus sy'n deillio o bandemig Covid-19 a meithrin yr egin gwyrdd sy'n dechrau dod i'r amlwg.

Dymuniadau gorau i chi i gyd a chadwch yn ddiogel.

Leigh Hughes

PSPRC yn llywio llwybr adferiad Llywodraeth Cymru yn sgil Covid-19

Penodwyd PSPRC gan Lywodraeth Cymru i lunio a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur, cynghori ar flaenoriaethu cyllid sgiliau ar gyfer y dyfodol a chynrychioli buddiannau rhanbarthol wrth llywio system sgiliau sy'n cael ei harwain gan alw.

Drwy raglen waith y cytunwyd arni ac sydd wedi'i chysylltu â phandemig y coronafeirws (Covid-19), mae PSPRC wedi ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid drwy gydol 2020. Ceisiodd y gwaith hwn ddeall yn well effaith y feirws ar sgiliau ar hyd a lled rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Mae gwybodaeth feddal wedi'i chasglu sydd wedi llywio cynnwys adroddiadau rheolaidd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael eu defnyddio i lywio'r llwybr adferiad.

Gellir gweld y copi diweddaraf o adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur COVID-19 PSPRC **yma**. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gwblhau ym mis Mai 2021.

Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol

Mae Llywodraeth Cymru wedi uno'r Gronfa Datblygu Sgiliau (CDS) â'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (RhCDP) yn ddiweddar.

Mae'r rhaglen yn darparu pecyn cymorth ehangach i weithwyr sy'n ennill llai na £26,000, gweithwyr ar ffyrlo, gweithwyr ar contractau dim oriau, staff asiantaeth neu'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swydd.

Mae'n rhoi cymorth drwy gynnig cyrsiau a chymwysterau sy'n helpu i fynd i'r afael â gofynion sgiliau rhanbarthol er mwyn ennill sgiliau a chymwysterau i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth ar lefel uwch neu mewn sectorau eraill.

Mae'r RhCDP yn galluogi gweithwyr i astudio cyrsiau hyblyg yn rhan amser i gyd-fynd â'u cyfrifoldebau presennol. Bydd yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i newid gyrfa a dechrau ar lwybr newydd.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae PSPRC wedi bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r rhwydwaith rhanbarthol o ddarparwyr AB i nodi cymwysterau cymwys i fynd i'r afael â blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol. Mae'r ymarfer hwn wedi'i lywio i raddau helaeth gan y wybodaeth am y farchnad lafur a gasglwyd drwy ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r holl gyrsiau sydd ar gynnig drwy gyfrif dysgu personol. I gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd a ble i gael gafael ar ddarparwr, ewch i'r dudalen **Cyfrifon Dysgu Personol** ar wefan Gyrfa Cymru.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu PSPRC i ddefnyddio ei rhwydweithiau cyflogwyr a nodi swyddi sy'n flaenoriaeth, sy'n dod i'r amlwg neu nad oes eu hangen cymaint mwyach.

Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r gwaith o ddatblygu codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS) a Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (DGS) newydd a bydd yn helpu yn y gwaith o flaenoriaethu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn y dyfodol.



Drwy'r gwaith hwn, mae PSPRC wedi nodi'r canfyddiadau cyffredinol canlynol:

- Nid yw codau DDS/DGS y diwydiant bob amser yn adlewyrchu'n gywir ehangder y galwedigaethau sy'n bodoli ar draws sectorau blaenoriaeth PSPRC.
- Mae codau DDS/DGS y diwydiant yn aml yn hen ffasiwn ac nid ydynt bob amser yn addas wrth gynhyrchu gwybodaeth gadarn a dibynadwy ar gyfer y llywodraeth.
- Mae'r codau DDS/DGS presennol yn cyflwyno heriau sylweddol i'r sector lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae maint y sector yn golygu nad oes gan y diwydiant ei ddsbarthiadau unigryw ei hun(er bod rhai wedi'u cynnwys drwy godau gweithgynhyrchu).
- Cydnabyddir bod gan gyfran gynyddol o'r gweithlu adeiladu swyddi rheoli a phroffesiynol.

Mae rhai o'r swyddi hyn, megis Rheolwr Dylunio, Cydlynnydd a Rheolwr Monitro a Gwerthuso, Cydlynnydd a Rheolwr Modelu Gwybodaeth Adeiladu, yn dal yn rhy newydd i gael eu DGS eu hunain. Yn ogystal, nid oes gan y swyddi hyn unrhyw SGC cysylltiedig ac felly nid oes llwybr cymhwyster ar gael.

- Mae'r sectorau creadigol a thechnoleg ddigidol a galluogi hefyd yn datblygu ar y fath raddfa fel bod ceisio dadansoddi'r sectorau sy'n defnyddio codau DDS a DGS traddodiadol yn arwain at ganlyniadau amherffaith.
- Gellid rhesymoli'r codau DGS ar gyfer galwedigaethau addysg (Addysg Uwch a Phellach - addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant) a'u halinio â chofrestriadau ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg.
- Mae'r rhain yn cynnwys; athrawon ysgol (cynradd ac uwchradd), gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol (gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth addysgol ac eraill), athrawon AB, gweithwyr cymorth dysgu AB, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid.
- Mae'r cod DGS presennol ar gyfer nyrsys a chynorthwywyr meithrin hefyd yn rhy gyffredinol - mae angen i alwedigaethau fod yn wahanol i weithwyr gofal plant a gweithwyr chwarae. Gellid cymhwyso'r un egwyddor hefyd i'r cod DGS ar gyfer nyrsys ac mae angen gwahaniaethu ar gyfer nyrsys iechyd a nyrsys gofal cymdeithasol.

Gwobrau Prentisiaethau Cymru

Mae PSPRC yn falch iawn o fod yn cefnogi'r digwyddiad eleni. Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, caiff Gwobrau Prentisiaethau Cymru eu trefnu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC).

Mae'r gwobrau'n cydnabod unigolion, darparwyr addysg a chyflogwyr sydd wedi rhagori wrth gyfrannu at ddatblygu rhaglenni cyflogadwyedd a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

Maent hefyd yn dathlu llwyddiannau'r rhai sydd wedi rhagori ar ddisgwyliadau drwy ddangos dull deinamig o hyfforddi, dangos menter yn ogystal ag arloesedd

a chreadigrwydd. Yn ogystal, byddant wedi dangos dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i wella datblygiad sgiliau ar gyfer economi Cymru.

Mae Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnig cyfle i unigolion a sefydliadau gael eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu hymroddiad, eu gwaith caled, eu cyflawniadau a'u llwyddiant yn rhaglenni cyflogadwyedd a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth ewch i

llyw.cymru/gwobrau-prentisiaethau-cymru

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r datblygiadau hyn, e-bostiwch:

RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk



Ymgyrchoedd Marchnata'r Sectorau â Blaenoriaeth

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae PSPRC wedi cael ei chefnogi gan Swyddfa Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Newyddion Busnes Cymru i hyrwyddo ein sectorau â blaenoriaeth drwy ymgyrchoedd marchnata pwrpasol.

Mae'r ymgyrchoedd wedi canolbwyntio ar y sectorau creadigol ac iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o chwalo canfyddiadau negyddol, gan amlygu ehangder y gyrfaoedd ac arddangos y dalent yn y rhanbarth.

Cynhyrchwyd erthyglau ar gyfer yr ymgyrchoedd yn dangos y cyfleoedd gwyb sydd ar gael a bod dyfodol disglair i'r sectorau hyn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yr erthyglau hyn yw:

- **Arwyr di-glod y sector gofal**
- **Rhoi llwyfan i dalent o'r radd flaenaf**

Ffair Gyrfaoedd Rithwir

Yn dilyn llwyddiant y ffair swyddi ar-lein ym mis Medi 2020, ymunodd y PSPRC unwaith eto â sefydliadau partner ar draws de-ddwyrain Cymru a chynnal digwyddiad gyrfaoedd rhithwir llwyddiannus arall ar 24 Mawrth.

Roedd partneriaid yn cynnwys - Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Awdurdodau Lleol a darparwyr hyfforddiant.

Roedd y digwyddiad yn rhad ac am ddim i fynychwyr ac arddangoswyr ac roedd yn rhoi sylw i'r swyddi a'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws de-ddwyrain Cymru - gan gynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

Roedd y digwyddiad yn gyfle gwyb i baru'r rhai sydd angen cymorth cyflogadwyedd ar draws y rhanbarth â chyflogwyr, sefydliadau cymorth cyflogaeth a darparwyr hyfforddiant.

Roedd dros 250 o bobl wedi mynd i'r digwyddiad lle cawsant gyfle i gael gwybodaeth a chefnogaeth gan dros 90 o sefydliadau.

Os fethoch chi'r digwyddiad gallwch gael gafaél ar yr holl wybodaeth a roddwyd ar y diwrnod ar-lein **yma**.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r datblygiadau hyn, e-bostiwch

RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk

